**<u>Cofnodion Cyfarfod CCG 26.1.23</u> Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:445**: **Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, William Owen, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Gwenfair Rhys-Davies, Paul Hughes, Huw Williams, Aled Griffiths Gareth Owen Sandra Evans (Clerc)

**19:446: Ymddiheuriadau**: Dafydd Evans, Aeron Pughe, Gwen Lloyd

**19:447:** Datganiadau o ddiddordeb: Paul Hughes – torri gwair, Bedwyr Fychan -Urdd Gobaith Cymru

**19:448:** Cyflwyno a derbyn cofnodion Rhagfyr Cynigiwyd hwn gan ac Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley. Nodwyd mai 3 bin ysbwriel a brynwyd gan breswylwr Cemaes ar gyfer baw cŵn. Am 8.55 daeth y cyfarfod i ben.

**19:449:** Adroddiad y Clerc: Gorsaf bwmpio Cwmlline. Diolch i Deryck Lewis am dynnu sylw at broblem gyda phumhouse Cwmlline dros y Sul a chyfarfod â chynrychiolydd o Ddŵr Cymru ar y safle.

**19:450: Cynllunio** Nodwyd bod cais ar gyfer Peroryn, Tal-y-wern yn cael ei gyflwyno eto gyda newidiadau. Nid yw Nodwyd y gellir dilyn hanes ceisiadau ar wefan y Cyngor Sir Powys. Os bydd Cynghorydd yn cael ymholiad gan breswylwyr gallai eu cyfeirio at y wefan neu mae croeso i'r Cynghorydd gysylltu â'r clerc i wneud ymholiadau ar ei ran. Nid yw'r cais am faes carafanau ychwanegol yng Ngheinws wedi cael sylw eto.

**19:451: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**
**19:451:1:** Derbyniwyd argymhellion awdit mewnol 2021-22 yn unfrydol gan y Cyngor. Amgeir sylwadau gyda'r ffurflen gan fod nifero bwyntiau a gododd yr archwilwyr mewnol yn gamarweiniol ac yn amherthnasol e.e. sylwadau am faint y gall Cynghorau Sir gyfrannu at elusennau, maint y trafodaethau sydd angen eu cynnal a'u cofnodi gan gynghorau bach.

**19:451:2:Taliadau** WR Infois rhif.: 184793 £90.00 gwasanaeth cyflogres Medi-Tach 2022

- Cyflog y clerc £362.80 Tachwedd Month 08, Rhagfyr 2022 mis 9 £282.40 cynigiwyd y dylid tal''r rhain gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams
- The PAYE £252.00 06 Hydref 2022 i 05 Ionawr 2023
- Anderson Tree Specialists Ltd £300.00 - adroddiad ac arolwg ar ywen Llanwrin
- Trefnu archwilwyr mewnol ar gyfer 2022-2023 Yn dilyn ymholiadau helaeth cysylltir â Geraint Cartwright o gwmni Lewis, Davies a Butler. Diolch i Mrs Sarah 8888 am ei chymorth yn y mater hwn. Cynigiwyd hyn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Glyn Jones.

**19:452:** Meinciau – Diolch i Iwan Jones, Deryck Lewis a Rhodri Wigley am gynnig derbyn y meinciau newydd. Bydd y ddwy fainc erbyn hyn yn cael eu cludo i Rhodri Wigley. Bydd Deryck Lewis yn edrych ar fainc Cemaes gan fod pryderon am ddiogelwch wedi cael eu codi gan y Parch Miriam Beecroft yn ddiweddar.
**19:453:** Hen wersyll y Comisiwn Coedwigaeth yng Ngheinws nodwyd bod gwahaoddiad i gynnig awgrymiadau ar gyfer defnydd y lleoliad. Does dim cynigion gan y Cyngor ar hyn o bryd.
Nodwyd bod mudiadau wedi cael eu gwahodd i fynegi diddordeb. Mae'r Cyngor yn falch o weld yr hen wersyll yn cael ei ddefnyddio eto.
**19:454:** Pennu Elusennau Cynigiwyd y byddai Urdd Gobaith Cymru yn achos teilwng gan y bydd eisteddfod 2024 ym Maldwyn a chymaint yw budd yr Urdd i bobl ifanc a'r gymdeithas yn gyffredinol. Byddai cyfraniad gan y Cyngor hefyd yn lleihau'r pwysau ar bobl leol sy'n codi arian at yr achos. Penderfynwyd gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf i weld pa elusennau eraill oedd wedi cysylltu â'r Cyngor.
**19:455:** Pennu torrwr gwair mynwentydd gan na fydd Peter Jones yn parhau i wneud y gwaith. Gosodir hysbyseb yn y Blewyn Glas. Nodwyd y bydd angen yswiriant priodol ar yr ymgeiswyr. Cynigiwd hum gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley. Anfonir llythyr ar ran y Cyngor at Peter Jones i ddiolch iddo am ei waith cywrain .

**19:456:1**: Adfer wal Llanwrin - Hysbysebwyd y gwaith yn y Blewyn Glas. Dau gynnig sy wedi dod i law sef £35,968.00 i gynnwys ffens, a £4,200 heb gynnwys T.A.W. Mynegodd Rhodri Wigley ddiddordeb a gadawodd yr ystafell. Cynigiodd y dylid derbyn cynnig Rhodri Wigley i adfer y wal am £4,200. Cytunwyd y Cyngor yn unfrydol gan fynegi mor braf oedd cael crefftwr oedd yn cymryd cymaint o falchder yn ei waith. Ystyrir y ffens at y dyfodol.
**19:456:2:** Claddedigaethau Trafodwyd polisi'r Cyngor.
**19:456:3**: Tocio coed yn Llanwrin a Darowen Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y gwaith Jon Anderson, Carwyn Lloyd, Mike Brown
**19:457:** Ciosg Cemaes Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth i gael mwy o wybodaeth. Gwahoddir syniadau.
**19:458:** Hysbysfwrdd Llanwrin Penderfynwyd bod angen prynu hysbysfwrdd newydd i Lanwrin gan fod y llall wedi cael ei ddifrodi. Gwneir ymholiadau gan gynnwys Cyngor Cadfarch a Chris Barnett
**19:459**: Gohebiaeth:
**19:460:** Adroddiadau'r Cynghorwyr
**Gwenfair Rhys-Davies**
Roedd aelodau'r fforwm yn siomedig i glywed gan Dr Shaw fod tri digwyddiad ymosodol wedi bod ar staff clinigol y Feddygfa.
Deellir na fydd y datblygiad newydd ynghlwm â'r ysbyty yn cael ei gwblhau tan fis Mawrth. Pwyswyd ar gynrychiolydd o Fwrdd Addysgu Iechyd Powys i drafod gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i sicrhau bod clinigau allgleifion arbenigwyr o Bronglais i'w cynnal yn y datblygiad newydd, ynghyd â phob gwasanaeth posib arall.
**EcoDyfi – Iwan Jones**
Tynnwyd sylw at ddigwyddiadad agoriadol hwb cymunedol a gynhelir yn yr hen Taj Mahal, Machynlleth Ddydd Sadwrn. Ymhlith pethau eraill cynigir cronfa bwyd a bwyd poeth yno. Canmolwyd yr ymgyrch a mynegwyd y gobaith y byddai modd ehangu'r gwasanaethau i bobl sy'n byw y tu allan i'r dref hefyd yn y dyfodol.
**Y Cyngor Sir – Elwyn Vaughan**
Cynhelir cyfarfod 23.2.23 i bennu cyllideb y Cyngor. Bydd bwlch o 16 miliwn yn y gyllideb.
**19:461:** Materion Priffyrdd a Phontydd:

- Lamp CWS 02 yng Ngheinws ddim yn gweithio
- Craig ger Llys Ffrydlan Adroddir hwn eto
- Coed ger Kennels Dorcorslwyn Adroddir hwn eto.
- 3 pothole ger Darowen wrth adael y pentref i gyfeiriad Abercegir.
- Halen Mae angen biniau yn Narowen a Chwmlline. Cysylltir eto i ofyn am bris a manylion archebu.
- Mae angen halen i Gwm Ffrydlon a Chwm Seion gan nad oes dim wedi cyrraedd yr ardaloedd hyn.
- Coed ar y bont yng Nghwmlline – adroddir hwn eto.**19:461:1:** Unrhyw Fater Arall

**19:461:** Mae ymholiadau'n parhau i ddarganfod a gafodd y Cyngor ddiffibrilwyr am ddim gan Lywodraeth Cymru
**19:461:2**: Cysylltir â Thraed Bêch Twymyn i fynegi pryderon y Cyngor am ddiogelwch y plant wrth gyrraedd a gadael y safle o ganlyniad i draffig trwm a chyflym. Cysylltir a gofyn a ydynt yn dymuno bod y Cyngor geisio gweithredu ar eu rhan.
**19:461:2**: Filing cabinet y Cyngor Mynegwyd diolch i Neuadd Glantwymyn am roi cartref newydd i Filing Cabinet y Cyngor. Penderfynwyd prynu filing cabinets newydd gyda chloeon.
**19:461:3:** Bu gwastraff a charthion yn gorlifo ger yr orsaf bwmpio yng Nghwmlline yn ddiweddar, Mae'r beipen hefyd wedi malu gan ollwng gwastraff dros gaeau ar dir preifat cyfagos. Y mae perchennog tir wedi cynnig i Ddŵr Cymru gael symud y beipen. Hyd yn hyn nid oes ymateb tymor hir gan Ddŵr Cymru er bod cynrychiolydd Dŵr Cymru wedi cyfarffod â Deryck Lewis a thîm glanhau wedi dod allan. Tybir bod y beipen sy'n cludo'r gwastraff i Gemaes yn rhy gul i ateb y gofynion. Trefnu cyfarfod gyda Dŵr Cymru, Gareth Jones a Deryck Lewis. Cynigiwyd hyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.
Daeth y cyfarfod i ben am 9.55.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 23.2.22